

ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

Teitl y cynnig:	Cynllun Gweithredu LHDTC+
Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):	Paul Lewis Y Tîm Cydraddoldeb, yr Is-adran Cymunedau
Adran:	Y Gangen Cydraddoldeb
Pennaeth yr Is-adran/yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):	Emma Bennett - Pennaeth yr Is-adran Cydraddoldeb
Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:	Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Y Dirprwy Weinidog Partneriaethau Cymdeithasol, Hannah Blythyn AS
Dyddiad dechrau:	17 Mai 2021

CYNNWYS

Adran 1. Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried, a pham?	3
Adran 8. Casgliad	4

ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED, A PHAM?

CYFLWYNIAD

Mae gan bawb yr hawl i fod yn ddiogel, i fod yn nhw eu hunain ac i fyw bywydau heb gael eu gwahaniaethu. Mae cydraddoldeb a chynhwysiant yn werthoedd craidd i Lywodraeth Cymru ac mae ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol yn golygu bod rhaid inni wneud popeth o fewn ein gallu i ddiogelu a hyrwyddo hawliau dynol a gwerthfawrogi amrywiaeth yng Nghymru. Wrth inni ddod allan o argyfwng Covid-19, mae angen y gwerthoedd hyn yn fwy nag erioed i greu Cymru decach, fwy ffyniannus a mwy cyfartal.

Yn ystod y 30 mlynedd ddiwethaf, mae cydraddoldeb a hawliau dynol wedi gwella'n sylweddol ar gyfer pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a chwiar/cwestiynu (LHDTC+) yng Nghymru a ledled y DU. Fodd bynnag, mae achosion o wahaniaethu'n parhau i fod yn realiti ym mywydau llawer o bobl LHDTC+. Mae angen gwneud rhagor o waith i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau strwythurol sy'n rhwystro eu cyfleoedd bywyd, eu rhagolygon a'u canlyniadau.

Mae Llywodraeth Cymru am i bob person sy'n LHDTC+ yng Nghymru fyw bywydau mor llawn â phosibl – i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Rydym wedi gweithio gydag ystod eang o bartneriaid i ddrafftio *Cynllun Gweithredu LHDTC+*. Bydd yn nodi'r camau pendant y byddwn yn eu cymryd i wella amodau bywyd pobl LHDTC+, i herio achosion o wahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae'n ddiogel i bobl LHDTC+ fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Mae'r Cynllun Gweithredu drafft yn rhoi sylw arbennig i'r amrywiaeth o anghenion penodol sydd gan bobl LHDTC+ a'r nodweddion sy'n eu gwneud yn agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu achosion o wahaniaethu croestoriadol. Mae'n rhoi ystyriaeth benodol i bobl draws a phobl anneuaidd, sydd ymhlith y grwpiau sy'n cael eu derbyn leiaf mewn cymdeithas ac sydd fel arfer yn profi mwy o wahaniaethu a thrais nag eraill yn y cymunedau LHDTC+. Mae sawl dimensiwn i achosion o wahaniaethu yn aml ac mae'r cynllun yn mabwysiadu dull croestoriadol er mwyn paratoi'r ffordd at newidiadau cynaliadwy a pharchus mewn cymdeithas.

Wrth ystyried yr argymhellion a gyhoeddwyd gan Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol¹ y Cenhedloedd Unedig ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd², mae'r Cynllun Gweithredu drafft yn nodi cyfres gyffredin o gamau gweithredu i wella'r gydnabyddiaeth o bobl LHDTC+. Mae hefyd yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu penodol i bolisi yn ymwneud ag addysg, gwella diogelwch, tai, iechyd a gofal cymdeithasol, a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Bydd yr asesiad effaith hwn yn rhoi ystyriaethau lefel uchel i'r Cynllun Gweithredu yn ei gyfanrwydd ac efallai y bydd angen i adrannau perthnasol

¹ OHCHR y Cenhedloedd Unedig (2015) Gwahaniaethu a thrais yn erbyn unigolion yn seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd: Adroddiad Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig <http://daccess-ods.un.org/access.nsf/Get?Open&DS=A/HRC/29/23&Lang=E>

² OHCHR y Cenhedloedd Unedig (2021) Arbenigwr Annibynnol ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd. <https://www.ohchr.org/en/issues/sexualorientationgender/pages/index.aspx>

gynnal asesiadau effaith pellach i ddatblygu camau gweithredu unigol yn ystod oes y cynllun. Bydd effeithiau'r cynllun yn cael eu hadolygu'n gyson a gellir cynnal asesiad pellach yn ôl yr angen.

Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDT+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydardoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.

Caiff y cynllun ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori arno yn ystod haf 2021.

ADRAN 8. CASGLIAD

8.1 Sut mae pobl sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi bod yn rhan o'i ddatblygu?

Dyma ein cynllun cyntaf i ganolbwyntio ar ymateb i anghenion penodol ac amrywiaeth ein cymunedau LHDT+, ynghyd â'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed. Am y tro cyntaf, byddwn yn dwyn ynghyd ein hymrwymiaidau presennol i'n pobl LHDT+ a byddwn yn canolbwyntio ar gyflawni ein huchelgais i greu'r wlad fwyaf cynhwysol yn Ewrop i bobl LHDT+, gan fynd i'r afael ag anghydardoldebau presennol a herio achosion o wahaniaethu pobl LHDT+ yn y dyfodol.

Yn ystod haf 2020, comisiynwyd Stonewall Cymru i gynnal ymgysylltiad cychwynnol â rhanddeiliaid i edrych pa themâu pwysig y gellid eu cynnwys mewn unrhyw Gynllun Gweithredu LHDT+ newydd i Gymru. Daeth Stonewall Cymru i ddysgu am brofiadau bywyd dros 600 o bobl LHDT+ drwy arolwg a chyfres o grwpiau ffocws rhithiol. Roedd rhai o negeseuon allweddol yr ymgysylltiad yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu pobl LHDT+, gwella diogelwch a mynd i'r afael ag anghydardoldebau yn ymwneud ag iechyd, yn enwedig iechyd pobl draws.

Ym mis Tachwedd 2020, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cyfeirio Allanol LHDT+ i roi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith y tîm polisi LHDT+. Ym mis Ionawr 2021, sefydlwyd Panel Arbenigol Annibynnol LHDT+ llai o faint i adeiladu ar ymgysylltiad cychwynnol Stonewall Cymru â rhanddeiliaid, gan roi cyngor strategol ar hyrwyddo cydraddoldeb LHDT+ yng Nghymru.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru hefyd gomisiynu Stonewall Cymru i gynnal rhagor o sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn helpu'r Panel Arbenigol Annibynnol i ystyried profiadau croestoriadol pobl LHDT+. Roedd y trefniadau'n cynnwys grwpiau ffocws bwrdd crwn rhithiol (yn cynrychioli pobl ifanc LHDT+, pobl hŷn, pobl anabl a phobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol) a rhai trafodaethau ychwanegol gyda sefydliadau gan gynnwys TUC Cymru, WEN Cymru a Llinell Gymorth LHDT Cymru.

Cyflwynodd y Panel 61 o argymhellion ynghyd â chyflwyno ei adroddiad i'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip bryd hynny, ar ddiwedd mis Mawrth 2021. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfres o

argymhellion cyffredinol yn canolbwyntio ar ymgorffori hawliau dynol mewn cyfraith ddomestig, ar gydlynu ac integreiddio cynlluniau yn strategol, ac ar hyfforddi, codi ymwybyddiaeth a meithrin gallu. Hefyd, cyhoeddodd yr adroddiad argymhellion thematig ar gyfer ystod eang o feysydd polisi, gan gynnwys cydnabod pobl draws a phobl anueuaidd, diogelwch, cartrefi a chymunedau, iechyd a gofal cymdeithasol, addysg a dysgu gydol oes, y gweithle a chefnogi ymateb COVID-19. Mae'r argymhellion hyn wedi bod yn sail i'r Cynllun Gweithredu drafft.

Bydd yr ymgynghoriad arfaethedig o fis Gorffennaf 2021 yn llywio'r gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu LHDTC+ Llywodraeth Cymru ymhellach. Bydd hyn yn helpu i gyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb yn y Sector Cyhoeddus³ (adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010), ac yn gwneud y mwyaf o'r cyfraniad at ein hamcanion llesiant a'n saith nod llesiant drwy geisio mynd i'r afael ag achosion o wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

8.2 Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol, yn gadarnhaol ac yn negyddol?

Pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;

- **Cyfeiriadedd Rhywiol ac Ailbennu Rhywedd**

Mae Llywodraeth Cymru am i bob person sy'n LHDTC+ yng Nghymru fyw bywydau mor llawn â phosibl – i fod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Bydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn gweithredu fel y fframwaith cydlynol ar gyfer datblygu polisi LHDTC+ ar draws y llywodraeth. Bydd yn nodi'r camau pendant yr ydym yn bwriadu eu cymryd i wella amodau bywyd pobl LHDTC+, i herio achosion o wahaniaethu ac i greu cymdeithas lle mae'n ddiogel i bobl LHDTC+ fyw a charu yn agored ac yn rhydd fel nhw eu hunain.

Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn glir: hawliau dynol yw hawliau LHDTC+. Mae ein Cynllun Gweithredu LHDTC+ drafft yn arwydd o'n hymrwymiad i barchu, diogelu a sicrhau hawliau pobl LHDTC+ yng Nghymru. Ategir y Cynllun gan y dull seiliedig ar hawliau a nodir gan Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig⁴ ac Arbenigwr Annibynnol y Cenhedloedd Unedig ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd⁵ ac mae'n helpu i sicrhau hawliau gwarantiedig i bobl LHDTC+ drwy'r canlynol:

- Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (1948, art. 35)
- Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol
- Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Sifil a Gwleidyddol
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Gwahaniaethu yn erbyn Menywod

³ Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (2015) *Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru*
<https://www.equalityhumanrights.com/en/advice-and-guidance/public-sector-equality-duty-wales>

⁴ OHCHR y Cenhedloedd Unedig (2015) *Gwahaniaethu a thrais yn erbyn unigolion yn seiliedig ar eu cyfeiriadedd rhywiol a'u hunaniaeth rhywedd*
Adroddiad Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig
https://www.un.org/en/ga/search/view_doc.asp?symbol=A/HRC/29/23&referer=/english/&Lang=E

⁵ OHCHR y Cenhedloedd Unedig (2021) *Arbenigwr Annibynnol ar Gyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd*
<https://www.ohchr.org/en/issues/sexualorientationgender/pages/index.aspx>

- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn

Mae'r dull hwn yn sicrhau y bydd y cynllun yn gwneud cyfraniad pwysig at y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei swyddogaeth o ran Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydraddoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau.

- **Oedran**

Mae'r gwaith cychwynnol o ddatblygu a drafftio'r cynllun wedi ystyried anghenion pobl LHDTTC+ hŷn ac wedi eu helpu i fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau drwy grŵp trafod rhithiol penodol. Roedd rhai negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r trafodaethau hyn yn canolbwyntio ar yr angen i wella profiadau pobl LHDTTC+ hŷn mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan fynd i'r afael â thrawma posibl mewn perthynas â therapi trosi a mynd i'r afael ag unigrwydd. Felly, mae ystod o gamau gweithredu yn y cynllun drafft, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gofal iechyd pobl LHDTTC+, yn cefnogi'r dull seiliedig ar hawliau a osodwyd gan Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn, gyda'r nod o sicrhau bod pobl LHDTTC+ hŷn yn teimlo bod eu hurddas yn cael ei warchod, bod eu hunaniaethau yn cael eu parchu a'u bod yn gallu byw eu bywydau i'r eithaf.

- **Rhywedd**

Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu'r effeithiau posibl ar hawliau menywod ac, wrth ystyried darpariaeth a nodir yn Atodlen 3 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n credu na fydd rhoi cefnogaeth i bobl draws a chyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn arwain at beryglu hawliau menywod a merched. Yn hytrach, mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn rhan o'n dull o gryfhau cydraddoldeb a diogelwch hawliau dynol i bawb. Mae estyn camau i amddiffyn pobl anneuaid a phobl draws drwy'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn cyd-fynd â'r rhwymedigaethau a osodwyd gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Wahardd Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod^{6 7}.

- **Crefydd neu Gred**

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ yn nodi ein huchelgais i fod y wlad fwyaf cynhwysol yn Ewrop ar gyfer pobl LHDTTC+. Mae hyn yn golygu bod rhaid inni fynd ar drywydd newid diwylliannol

⁶ OHCHR y Cenhedloedd Unedig (1979) *Erthyglau 1 a 2 CEDAW y Cenhedloedd Unedig*
<https://www.ohchr.org/EN/ProfessionalInterest/Pages/CEDAW.aspx>

⁷ Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (2010) *Argymhelliad Cyffredinol Rhif 28 ar rwymedigaethau craidd partiön Gwladwriaethau o dan erthygl 2 o'r Confensiwn ar Ddiddymu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod* <https://documents-dds-ny.un.org/doc/UNDOC/GEN/G10/472/60/PDF/G1047260.pdf?OpenElement>

systemig a chynnydd o ran creu Cymru gynhwysol i bobl LHDTTC+. Mae gan bobl LHDTTC+ yr hawl i deimlo'n ddiogel gartref, yn yr ysgol, yn y gweithle ac yn y gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cefnogi cymunedau o ffydd i fod yn gynhwysol mewn perthynas â phobl LHDTTC+. Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ am fabwysiadu dull croestoriadol ac adeiladu ar waith presennol arweinwyr ffydd yng Nghymru i hyrwyddo cynwysoldeb pobl LHDTTC+ a chefnogi llawer o bobl LHDTTC+ i fynegi eu ffydd neu eu credoau eu hunain.

Gall y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft effeithio ar faterion sy'n ymwneud â rhyddid mynegiant ar sail cred a ffydd. Fodd bynnag, er bod yr hawl i ddal cred yn hawl absoliwt, mae'r hawl i arddangos cred grefyddol neu athronyddol yn un amodol. Efallai y bydd ymyrraeth y cynllun drafft â'r olaf yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch, iechyd neu foesau y cyhoedd, neu o ran diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.

Plant a'u cynrychiolwyr

Mae'r Cynllun Gweithredu LHDTTC+ drafft yn nodi cyfres o gynigion sydd â'r nod o gefnogi llesiant plant a phobl ifanc LHDTTC+ a'r hawliau a warentir iddynt gan CCUHP. Er enghraifft:

- Datblygu canllawiau i gefnogi dysgwyr traws (Erthyglau 2, 8 a 29)
- Gwella mynediad i fannau diogel a gwasanaethau cymorth ieuencid cynhwysol (Erthyglau 13 a 15)
- Gwella mynediad plant a phobl ifanc at gymorth hunaniaeth rhywedd (Erthyglau 8 a 24);
- Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb sy'n gynhwysol o ran pobl LHDTTC+ yn y cwricwlwm newydd (Erthygl 29).

Mae'r gwaith cychwynnol o ddatblygu a drafftio'r cynllun hefyd wedi ystyried Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac mae wedi helpu plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau drwy grwpiau trafod bwrdd crwn rhithiol. Cynrychiolwyd nifer o sefydliadau ieuencid LHDTTC+ hefyd yn ein trefniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd cyfleoedd pellach i blant a phobl ifanc gael lleisio eu barn yn ystod cam ymgynghori ffurfiol y cynllun. Bydd adborth o'r cam ymgynghori yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.

Siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol yn y Gymraeg

Bydd yr ymgynghoriad ar gael mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, BSL ac ieithoedd cymunedol eraill. Nod yr ymgynghoriad yw ceisio barn siaradwyr Cymraeg a grwpiau arbenigol Cymraeg eu hiaith yn benodol, a byddwn yn gweithio gyda sefydliadau partner i'w gwahodd i ymgynghori â ni. Yn seiliedig ar eu mewnbwn, bydd hyn yn bwydo i mewn i gamau gweithredu a nodau penodol mewn perthynas â'r Gymraeg yn y Cynllun, er y bydd nodau a chatau gweithredu ar draws y gwahanol feysydd polisi, yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg.

8.3 Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig yn gwneud y canlynol?

- **Yn sicrhau y gwneir y cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'n saith nod llesiant; a/neu,**

Drwy greu Cymru sy'n fwy cyfartal, lle mae gan bawb y cyfle i gymryd rhan, i wireddu ei botensial ac i allu cyfrannu'n llawn at yr economi, gellir cael Cymru fwy llewyrchus ac arloesol. Mae cysylltiad amlwg rhwng y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol a'r nod hwn. Caiff y Cynllun ei ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 'pum ffordd o weithio' yn adran 5 o Ddeddf 2015. Yn bwysicach na dim, drwy fod yn gynhwysol a chydweithio: mae profiad uniongyrchol pobl LHDTC+ yn ganolog i gynnwys y Cynllun.

- **yn osgoi, lleihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Ni ragwelwyd unrhyw effeithiau negyddol uniongyrchol o ganlyniad i gyhoeddi Cynllun Gweithredu LHDTC+. Mae'r Cynllun wedi'i gynllunio i barchu, diogelu a gwireddu hawliau LHDTC+ a warentir iddynt gan ystod o gytundebau hawliau dynol rhyngwladol. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd y Cynllun Gweithredu LHDTC+ yn destun nifer o gamsyniadau a heriau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- canfyddiad o gymryd cam yn ôl neu gyfnewid amddiffyniadau i fenywod a merched
- ymyrraeth bosibl â rhyddidau crefyddol a'r hawl i arddangos cred

Er mai dyma'r fframwaith polisi cyntaf i ganolbwyntio ar anghenion penodol pobl LHDTC+ a'r ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed, mae'n rhan o ddull ehangach o ymdrin â chydaddoldeb prif ffrwd ac o amddiffyn hawliau dynol pawb yn well. O ganlyniad, dylid darllen y fframwaith ochr yn ochr â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, y Fframwaith Gweithredu ar gyfer Anabledd, a'n Cynllun Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau. Bydd trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystyried y ffordd orau o gefnogi pobl a chanddynt fuddiant i leisio eu barn, gan roi sicrwydd a mynd i'r afael â chamsyniadau.

8.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan ddaw i ben?

Bwriedir i'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ fod yn ddogfen 'fyw'. Bydd hyn yn bwydo i mewn i'r penderfyniadau polisi a gwahanol adrannau polisi ar draws Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'i gamau gweithredu. Bydd swyddogion sy'n gweithio yn y meysydd polisi hynny yn rhoi diweddariadau rheolaidd i Dîm Cydraddoldeb canolog a darperir diweddariad cynnydd blynyddol i grŵp annibynnol a sefydlwyd mewn strwythur llywodraethu newydd ar gyfer y cynllun. Bydd gan yr Uned Data Cydraddoldeb arfaethedig rôl hefyd, a disgwylir iddi wella'r broses o gasglu

a defnyddio data a thystiolaeth. Mae llawer o'r camau gweithredu yn y Cynllun hefyd yn ceisio gwella data a thystiolaeth er mwyn penderfynu a yw polisiau'n cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Mae cyd-awduro wedi bod yn egwyddor bwysig ar gyfer datblygu'r Cynllun a bydd cynnwys profiadau uniongyrchol pobl yr un mor bwysig wrth ei weithredu. Bydd trefniadau monitro a gwerthuso yn cael eu cwblhau gan fod y Cynllun yn cael ei gwblhau ar ôl yr ymgynghoriad.